LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

Cyfarfod:	Bwrdd Ymddiriedolwyr Llyfrgell Genedlaethol Cymru Cyfarfod Agored
Dyddiad:	Dydd Gwener, 22 Mawrth rhwng 12.00 - 13.30
Lleoliad:	Ystafell y Cyngor ar ar-lein

Yn bresennol:

Aelodau'r Bwrdd:	Ashok Ahir (Llywydd a Chadeirydd) Andrew Evans (Is Lywydd) Gronw Percy (Trysorydd) Lydia Rumsey Janet Wademan Hannah Lindsay Anwen Jones David Hay Susan Davies Quentin Howard Andrew Cusworth John Allen
Tîm Gweithredol:	Pedr ap Llwyd, Prif Weithredwr a Llyfrgellydd Rhian Gibson, Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Ymgysylltu a Phartneriaethau Owain Roberts, Cyfarwyddwr Casgliadau a Gwasanaethau Digidol Emyr Evans, Cyfarwyddwr Cyllid (dros dro)
Hefyd yn bresennol:	Annwen Isaac, Rheolwr Adnoddau Dynol Mary Ellis, Llywodraeth Cymru Nia Dafydd, Cyngor Partneriaeth
Cofnodion:	Carol Edwards (Rheolwr Llywodraethiant Corfforaethol)
Ymddiheuriadau:	Elaine Treharne, Lee Yale-Helms

1. Materion Cyffredinol

1.1 Croeso gan y Cadeirydd a sylwadau agoriadol

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, gan estyn croeso arbennig i Mary Ellis, ar ran Llywodraeth Cymru a Nia Dafydd ar ran Cyngor Partneriaeth y Llyfrgell.

Estynnwyd llongyfarchiadau i Anwen Jones, oedd yn cychwyn ar ei ail dymor o bedair blynedd fel Ymddiriedolwr.

Nododd y Cadeirydd na fyddai unrhyw fater a drafodwyd yn y sesiwn gaeedig yn cael ei ailadrodd yn sesiwn agored.

1.2 Datgan buddiannau sy'n berthnasol i'r agenda

Datganodd yr aelodau staff oedd yn bresennol fuddiant yn eitem 3.2 – Cynllun Pensiwn – fel aelodau gweithredol o'r cynllun hwnnw.

1.3 Cofnodion cyfarfod arbennig 22 Ionawr 2024

Cymeradwywyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r materion a drafodwyd.

1.4 Cofnodion cyfarfod 26 Ionawr 2024 a materion yn codi nad ydynt ar yr agenda

Cymeradwywyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r materion a drafodwyd, gyda'r materion canlynol yn codi nad ydynt ar yr agenda;

Cyber Essentials+ - mae'r aseswyr allanol yn sganio sustemau'r Llyfrgell ar hyn o bryd, a disgwylir cwblhau'r gwaith ar gyfer yr achrediad yn ystod yr wythnosau nesaf.

Llythyr cylch gorchwyl diwygiedig – nid yw'r Llyfrgell wedi derbyn fersiwn ddiwygiedig. Bydd y Llwydd yn trafod hyn gyda'r Prif Weithredwr ar ôl y Pasg, fel mater i'w drafod gyda'r Ysgrifennydd newydd yn Llywodraeth Cymru

Pwyllgorau'r Bwrdd - diolch i bawb wnaeth ddatgan diddordeb i ymuno gyda'r pwyllgorau; yr aelodaeth fydd;

- Andrew Evans a John Allen yn ymuno gyda'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd
- David Hay yn ymuno gyda'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau (ac yn parhau'n aelod o'r Pwyllgor Perfformiad, Ansawdd a Llywodraethiant)
- Hannah Lindsay yn ymuno gyda'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau (ac yn gadael y Pwyllgor Perfformiad, Ansawdd a Llywodraethiant)
- Elaine Treharne yn ymuno gyda'r Pwyllgor Perfformiad, Ansawdd a Llywodraethiant (ac yn gadael y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau)
- John Allen yn ymuno gyda'r Panel Adeiladau

Rhaglen hyfforddiant – diolch i Andrew Evans, Janet Wademan a Susan Davies am gynnig syniadau; bydd rhaglen yn cael ei chyflwyno i'r cyfarfod nesaf ym mis Mai

Penodi Ymddiriedolwr - penderfynodd y Pwyllgor Perfformiad, Ansawdd a Llywodraethiant yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror beidio hysbysebu am aelod yn lle Gwenllian Lansdown Davies ar hyn o bryd, ond i gychwyn sgwrs gyda Llywodraeth Cymru ar ôl yr haf ynglŷn â'r penodiad yma a phenodiadau ar gyfer 2025.

Rhaglen Cysgodi - nododd y Cadeirydd ei fod wedi cytuno i'r Llyfrgell fod yn rhan o raglen cysgodi'r Uned Cyrff Cyhoeddus, a'r gobaith yw y bydd rhywun yn ymuno gyda ni cyn yr haf.

Adran 2
2.1 Adroddiad y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd

Cyflwynodd y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd ei adroddiad olaf i'r Bwrdd, gan nodi y byddai'n parhau i gefnogi'r Llyfrgell mewn unrhyw ffordd y medrai ar ôl ymddeol.

Tynnodd sylw arbennig at eitem 5.4.2 yn ei adroddiad, sef digido'r *Repertory of Welsh Manuscripts and Scribes;* byddai hyn yn ymestyn mynediad at y campwaith yma ar draws y byd. Cytunodd y Bwrdd i gefnogi'r prosiect yma o'r cronfeydd preifat hyd at £10k. Bydd y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd hefyd yn cyfrannu'n gyfartal at y costau.

Disgwylir y bydd y Prif Weithredwr newydd yn medru rhoi diweddariad i'r Bwrdd ar y prosiect yma ac unrhyw ddatblygiadau pellach i'r Repertory mewn cyfarfodydd at y dyfodol.

Cyllid ychwanegol Llywodraeth Cymru – nodwyd bod y Llyfrgell wedi derbyn £650k o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2023/2024;

- £400k i gynorthwyo gyda digido cynnwys o fewn yr Archif Ddarlledu
- £250k i fynd i'r afael a gwaredu asbestos o doeon fflat storfeydd 1 a 2

Mae'r Llyfrgell hefyd, bore yma, wedi derbyn £1,455k o dan y cytundeb partneriaeth, sef c£615k ar gyfer paneli solar a c£750k i ddatblygu'r atriwm yn y trydydd adeilad a £90k i'r adran IT.

Diolchwyd i'r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd am ei adroddiad.

2.2 Cynllun Gwaith y Darpar Brif Weithrewr

Yn absenoldeb y darpar Brif Weithredwr, cyflwynodd y Cadeirydd fraslun o gynllun gwaith ar gyfer y misoedd nesaf. Bydd papur llawn yn cael ei gyflwyno i gyfarfod mis Mai.

- Datblygu cynllun strategol 2024 – 2029 rhwng Ebrill a diwedd yr haf
- Datblygu strwythur staffio rhwng yr haf a Rhagfyr, ymgynghori ar y cynllun strategol, a'r strwythur staffio
- Ymgynghori gyda staff, Bwrdd a rhanddeiliaid allweddol ar yr uchod rhwng Mai -Mehefin
- Cyflwyno rhaglen newid i gyfarfod y Bwrdd 10 Mai
- Trafod y rhaglen newid gyda'r undebau llafur rhwng 18 – 20 Mehefin
- Cyflwyno drafft o'r cynllun strategol, rhaglen newid a strwythur staff newydd i gyfarfod y Bwrdd ar 26 Gorffennaf

"Rhannu Cyfrinachau"

Cyflwynwyd clip o'r gyfres gan Rhian Gibson.

Comisiynwyd cyfres deledu "Rhannu Cyfrinachau" gan S4C, sy'n cael ei chynhyrchu gan gwmni Slam. Bydd y gyfres yn cael ei darlledu ym mis Medi. Mae diddordeb mewn creu ail gyfres, ac mae'r fformat wedi ei ddangos i ITV Studios sy'n edrych i ddatblygu fersiwn Saesneg. Mi fydd y gyfres yn dod â chryn sylw i'r Llyfrgell ac yn codi ei phroffil; bydd y gyfres yn cael ei hyrwyddo dros yr haf.

Diolchodd Rhian i Nia Dafydd am ei holl waith yn goruchwylio'r criw ffilmio tra buont yn y Llyfrgell.

Adran 3 Materion Strategol

3.1 Strategaeth Ryngwladol a digwyddiadau
Cafwyd diweddariad ar weithgareddau gan Rhian Gibson.

- Bu'r Llyfrgell yn rhan o Wales Week in London am y tro cynaf ers blynyddoedd, gan hyrwyddo Annie Cwrt Mawr a'r Ddeiseb Heddwch
- Cynhaliwyd digwyddiad ar y cyd gyda'r Sioe Frenhinol yn y Tŷ Cyffredin – cafodd y Llyfrgell sylw arbennig gan David T C Davies ar y noson
- Bwriedir cynnal digwyddiad arall yn Llundain tua mis Mehefin – un o'r syniadau yw digwyddiad gyda Cymdeithas Cyfreithwyr Cymraeg yn Llundain; bydd trafodaethau pellach dros yr wythnosau nesaf
- Mi fydd y Llyfrgell yn rhan o Ŵyl Cymru Gogledd America yn Pittsburgh ym mis Awst, ble bydd 2 sesiwn hanes teulu a 2 sesiwn ar y Ddeiseb Heddwch yn cael eu cynnal; bydd gan y Llyfrgell hefyd stondin yn yr ŵyl. Nid yw'r Llyfrgell yn bartner llawn eleni, ond os bydd yn llwyddiant yna bydd y Llyfrgell yn bartner llawn yn Ottowa yn 2025.
- Mae Rhian yn rhan o grŵp Diplomyddion Diwylliannol Llywodraeth Cymru - mi fydd diwrnod y Gymanwlad yn cael ei lansio yn y Llyfrgell flwyddyn nesaf, ac mae trafodaethau ar y gweill gyda Luned Haf, Pennaeth Cymru Ryngwladol ynglyn â hyn a phartneriaethau eraill

Mae'r gwaith rhyngwladol yn her oherwydd prinder adnoddau, a bydd rhaid pwyso a mesur hyn wrth ddatblygu'r strategaeth newydd.

Bydd Rhian yn cyflwyno papur rhagarweiniol i'r Bwrdd ym mis Mai i greu hwb hanes teulu yn y Llyfrgell fydd ag ymestyn rhynglwadol. Y gobaith fydd creu cynllun peilot wedi ei ariannu, gan ddisgwyl i'r prosiect fod yn hunan gynhaliol wrth symud yn ei blaen. Nododd y Bwrdd efallai byddai modd cynorthwyo gydag arian preifat petai'r prosiect yma a rhai eraill yn cael eu pecynnu fel prosiectau arbennig.

Bydd Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar ei Strategaeth Ddiwylliannol ym mis Mai , a chytunwyd y Bydd dylai'r Bwrdd ystyried hyn yn ei gyfarfod ar 10 Mai – Clerc i'w osod ar yr agenda.

Diolchwyd i Rhian am adroddiad positif a diddorol.

3.2 Cynllun Pensiwn – diweddariad ar y sefyllfa bresennol

Diweddarwyd y Bwrdd gan Emyr Evans

- Mae'r cytundeb gyda WTW wedi ei arwyddo a byddant yn cychwyn ar weinyddu'r cynllun yn ffurfiol ar 1 Ebrill
- Gwaith trosglwyddo dogfennaeth i WTW yn mynd yn ei flaen
- Angen trafod strategaeth buddsoddi gyda WTW
- Buddsoddiadau'n trosglwyddo o Blackrock i WTW dros y flwyddyn nesaf
- Dogfen ymgynghori drafft ar y cynllun ar gael, ond angen llawer o waith pellach i'w diweddaru – i ddigwydd pan fydd Rhodri Llwyd Morgan a Mererid Boswell wedi cychwyn

3.3 Rheoliadau 2024

Cyflwynwyd newidiadau i'r Rheoliadau gan y Clerc, ac fe'u cymeradwywyd gan y Bwrdd

3.4 Cynllun Diswyddo Gwirfoddol

Wedi ei drafod yn y cyfarfod caeedig

Adran 4 Materion Corfforaethol
4.1 Adroddiadau Ariannol

4.1.1 Cyfrifon Blynyddol Statudol 2022/2023

Cyflwynwyd y Cyfrifon Blynyddol i'r Bwrdd i'w cymeradwyo gan y Trysorydd.

Cynhaliwyd cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ar 18 Mawrth i graffu ar y Cyfrifon. Roedd Anthony Veale, Archwilio Cymru'n bresennol i gyflwyno'r Adroddiad Archwilio'r Cyfrifon a'r Llythyr Rheoli. Mi fydd Archwilio Cymru'n rhoi barn ddiamod ar Gyfrifon Blynyddol 2022/2023, sydd i'w groesawu. Gwnaed man newidiadau i'r naratif yn dilyn cyfarfod 18 Mawrth.

Diolchwyd i Emyr Evans a'r tîm, Anthony Veale ac Archwilio Cymru am eu gwaith.

Roedd y Trysorydd yn hapus i argymell bod y Bwrdd yn cymeradwyo'r Cyfrifon, ac fe'u cymeradwywyd yn unfrydol gan y Bwrdd.

4.1.2 Cyfrifon Rheoli Chwefror 2024

Cyflwynwyd y rhain gan Emyr Evans, a nodwyd bod y ffigyrau fel y disgwylir ac yn well na'r hyn a gyllidwyd ar ei gyfer.

4.1.3 Cyllideb 2024/2025

Yn dilyn trafod gyda Rhodri Llwyd Morgan, bydd Emyr Evans yn cyflwyno drafft o'r gyllideb i'r Bwrdd ym mis Mai. Disgwylir cynnal cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau i graffu ar y gyllideb ddrafft cyn iddi gael ei chyflwyno i'r Bwrdd.

4.1.4 Ymrwymiadau'r cronfeydd preifat

Mae'r daenlen wedi newid oherwydd yr ymrwymiadau canlynol;

- Taliad costau byw
- £500k i'r Archif Ddarlledu
- Cyflogau'r gyfarwyddiaeth Cyfathrebu, Ymgysylltu a Phartneriaethau
- Costau'r Adolygiad Teilwreidg
- £1m i sicrhau bod y llif arian yn iawn (fydd yn cal ei ad-dalu yn dilyn derbyn cyllid ychwnaegol gan Llywodraeth Cymru)
- £1m cynllun diswyddo gwirfoddol - hefyd i'w ad-dalu gan fod Llywodraeth Cymru'n cyllido hwn yn gyfan gwbl

Mewn ymateb i gwestiwn gan un o'r aelodau, cadarnhawyd bod y Siarter yn caniatau i'r Llyfrgell fenthyg arian yn erbyn ei chronfeydd preifat.

Mae angen eglurder ar ymrwymiad parhaus yr Archif Ddarlledu. Awgrymwyd edrych yn ôl ar y penderfyniad gwreiddiol o ran cyllido'r Archif Ddarlledu, ac ail ystyried os oes angen y £5.5m "*ring fenced*" erbyn hyn.

4.1.5 Polisi Cronfeydd Preifat

Cyflwynwyd y polisi presennol i'r Bwrdd er gwybodaeth; mae hwn yn ddilys tan 2025.
Bydd yn cael ei ddiwygio dros y flwyddyn nesaf a pholisi newydd yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ddiwedd y flwyddyn galendar.

4.1.6 Diweddariad ariannol

Rhoddodd y Cadeirydd grynodeb o'r materion ariannol.

- 24 o staff wedi derbyn VSS sydd yn costio £1,143M (cost gadael, PILON a'r diffyg i'r cynllun pensiwn). Llywodraeth Cymru wedi ariannu hyn yn gyfan gwbl
- Bydd staff yn gadael rhwng mis Mawrth a Rhagfyr – arbediad ariannol yn c£750k yn 2024/2025 ond yn c£1M yn 2025/2026
- £650k o gyllid ychwanegol diwedd y flwyddyn wedi ei dderbyn [manylion yn Adran 2]
- £342,500 o gyllid trawsnewid wedi ei dderbyn ar gyfer 2024/2025
- Tua £1.2M o arian i ddod i'r cronfeydd preifat yn dilyn gwerthu tŷ yn Llundain oedd wedi ei adael i'r Llyfrgell

4.2 Cydymffurfiaeth a Risg

Dim materion i'w hadrodd

Adran 5: Adroddiadau Pwyllgorau

5.1 Cofnodion drafft Archwilio, Risg a Sicrwydd, 13.02.24

Amlygodd y Cadeirydd, Janet Wademan y canlynol i sylw'r Ymddiriedolwyr

- Cyflenwad llawn o aelodau yn dilyn penodi 2 Ymddiriedolwr i'r Pwyllgor
- Trwy gytundeb ar y ddwy ochr, bydd archwilwyr newydd y Llyfrgell, RSM, yn cynnal un archwiliad, fydd yn bwydo i fewn i farn blynyddol yr archwilwyr presennol, sef archwilwyr mewnol Llywodraeth Cymru
- Archwiliad effeithiolrwydd y pwyllgor wedi adnabod meysydd hyfforddiant i'w hystyried
- Diolchwyd i bawb am fynychu'r cyfarfod arbennig nos Lun ar fyr rybudd

5.2 Cofnodion drafft Perfformiad, Ansawdd a Llywodraethiant 27.02.24

Dim byd i'w ychwanegu at y cofnodion

5.3 Cofnodion drafft Cyllid ac Adnoddau 06.03.24 – crynodeb llafar

Meysydd wedi eu trafod yn barod yn ystod y cyfarfod.

Adran 6: Unrhyw fater arall

Sêl y Llyfrgell – yn unol â Rheoliadau'r Llyfrgell, adroddwyd bod y sêl wedi ei ddefnyddio ar ddogfen Gweithred Ymddiriedolwyr y cynllun pensiwn.

Deallusrwydd artiffisial – adroddodd Owain Roberts bod y Llyfrgell yn cydweithio ar brosiectau yn y maes, ac wedi cyfrannu at astudiaethau achos gyda Phrifysgol Glasgow.

Diolch – dyma gyfarfod olaf Pedr ap Llwyd, fel Prif Weithredwr a Llyfrgellydd. Diolchwyd iddo gan y Llywydd a chyflwynwyd anrheg iddo ar ran y Bwrdd. Dymunodd y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd bod dymuniad da i'r Prif Weithredwr newydd, y Bwrdd a'r staff at y dyfodol, gan ddiolch am y cymorth a'r gefnogaeth mae wedi ei dderbyn dros y blynyddoedd.

Sesiwn Gaeedig - crynodeb o faterion a drafodwyd

1. Materion Ariannol
2. Materion Cyfreithiol
3. Materion Staffio

**** DIWEDD ****

PWYNTIAU I'W GWEITHREDU /MATERION ANGEN SYLW PELLACH			
Gweithred	**Cyfrifoldeb**	**Erbyn**	**Wedi ei gwblhau**
Llythyr Cylch Gorchwyl diwygiedig – Llywydd a'r Prif Weithredwr i drafod gyda'r Ysgrifennydd	Llywydd / Prif Weithredwr	Ebrill / Mai	Cyfarfod i'w gynnal 07.05.24
Rhaglen hyfforddiant ymddiriedolwyr	Llywydd / Clerc	Cyfarfod 10.05.24	Ar yr agenda
Penodiadau i'r Bwrdd – trafod gyda Llywodraeth Cymru	Llywydd / LlC	Hydref 2024	I'w weithredu
Papur rhagarweiniol ar greu hwb hanes teulu	Rhian Gibson	Cyfarfod 10.05.24	Ar yr agenda
Strategaeth Ddiwylliannol LlC – gosod ar agenda'r cyfarfod nesaf	Clerc	Cyfarfod 10.05.24	Heb ei derbyn
Cyflwyno cyllideb 2024/2025	Trysorydd / Emyr Evans	Cyfarfod 10.05.24	Ar yr agenda
Polisi Cronfeydd Preifat – diwygio a'i gyflwyno i'r Bwrdd	Mererid Boswell	Cyfarfod 29.11.24	I'w weithredu